Trac 1: Os ewch chi i'r goedwig heddiw, rydych chi'n siŵr o gael eich synnu

A glywsoch chi am y coedwigwr nad oedd eisiau torri coed i lawr? Daliwch ati i wrando, oherwydd mae'n debyg bod rhywbeth rhyfedd yn digwydd i bobl sy'n rheoli'r bloc deugain hectar o goedwig hwn ym mharc coedwig Coed y Brenin.

Ers plannu'r ffynidwydd Douglas mawreddog, sy'n sefyll yn urddasol o'ch blaen, yn y mil naw dauddegau, mae staff y Comisiwn Coedwigoedd wedi gwneud rhai penderfyniadau hynod a wrthwynebwyd gan eu cyfoedion – ond sydd yn y pen draw wedi dod â phleser a chyfleoedd i filiynau o bobl.

Dros y pum munud a deugain nesaf, byddwch yn clywed am goed sy'n hedfan, a choedwigwr a oedd eisiau i bobl gerdded yn y goedwig. Efallai y bydd hyn yn swnio'n rhyfedd heddiw, ond nôl yn y mil naw chwedegau, nid man i bobl gyffredin oedd y man hwn!

Ond dewch i ni ddechrau gyda chasglwr planhigion o'r Alban a roddodd ei enw i'r coed tal conifferaidd ar y llwybr o'ch blaen. Teithiodd David Douglas drwy Ogledd America'n chwilio am blanhigion a chredir iddo gyflwyno bron i ddau gant a hanner o rywogaethau planhigion i Brydain, a drawsnewidiodd ein tirwedd a'r diwydiant pren. Ond pan oedd ond yn bymtheg ar hugain oed, wrth ddringo llosgfynydd yn Hawaii, bu farw cyn ei amser mewn ffordd ddigon annifyr. Dyma Aled Thomas, Coedwigwr Comisiwn Coedwigaeth Cymru yng Nghoed y Brenin, yn adrodd yr hanes...

01_aled_douglas 30 secs

"Yn anffodus, cafodd David druan ei ladd. Roedd yn ddyn ifanc a syrthiodd ar ddamwain i drap tarw. Roedd y bobl leol wedi cloddio pydew mawr, a'i orchuddio â gwellt, ac yn anffodus syrthiodd iddo ac roedd tarw ynddo a chafodd ei gornio i farwolaeth. Stori erchyll." [chwerthin]

Nawr dilynwch y nodwyr llwybrau melyn a chwiliwch am y safle MP3 nesaf ar y llwybr.

[2 funud]

Trac 2: Eisteddwch nôl ac ymlacio, rydych mewn cwmni da

02_aled_ships_masts [39 secs]

"Mae ffynidwydd Douglas yn cynhyrchu pren gwerthfawr, ac yn goed coedwig gwerthfawr, ac mae maint y coed sydd gennym yma, a'u sythder, os edrychwch i fyny arnynt, os gorweddwch ar eich cefn ac edrych i fyny arnynt, fe welwch chi eu bod nhw'n syth iawn, iawn. Ac maen nhw'n ddelfrydol ar gyfer gwneud mastiau llongau, a dyma un o ddefnyddiau traddodiadol ffynidwydd Douglas. Mae'r pren yn lliw coch hyfryd; mae'n weddol wydn wrth ei ddefnyddio yn yr awyr agored a gellir ei ddefnyddio fel cladin ar gyfer tai yn y dyfodol, fel cyflenwad cynaliadwy o bren."

Felly rhowch saib i'ch traed a neidiwch ar 'wely'r goedwig' . O'r safle hwn gallwch edmygu canopi'r goedwig.

Mae'n drueni nad yw'r coed hyn yn gallu siarad, oherwydd rwy'n siŵr y byddent yn gallu adrodd nifer o straeon. Ond rydym yn ffodus i gael y Coedwigwr lleol Aled Thomas i rannu ei straeon ei hun am y goedwig hon. Mwynhewch olygfeydd a seiniau'r Afon Eden wrth i chi ddilyn y llwybr tuag at y Brenin, y Pencampwr a safle rhif tri.

[1 funud 20 eiliad]

Trac 3: Y Brenin, y pencampwr a'r ymhonwyr ifanc

Yn syth o'ch blaen saif y 'brenin', y credir iddo fod â'r cyfaint mwyaf o bren yn y goedwig. Ychydig lathenni i'r chwith mae'r 'pencampwr': dyma'r goeden dalaf yn y goedwig hon. Ond ni all yr un ohonynt orffwys ar eu bri, oherwydd bod yr amgylchiadau yma'n ddelfrydol ar gyfer tyfiant, fel mae Aled Thomas yn datgelu...

03_aled_mngt 90secs

"Oherwydd gwaddodiad a gwres y microhinsawdd sydd gennym yn y dyffryn bach hwn - sef Dyffryn Mawddach - maen nhw wedi tyfu'n dda iawn. Oherwydd y lleithder - mae hyd at gan modfedd o law yn disgyn ar y goedwig hon - ac os edrychwch chi ar yr haenen o fwsogl sydd o dan y fan hon, mae'n gyfrwng gwych ar gyfer hadau. Mae'r pridd yn y fan hon yn bridd brown da, mae'n ffrwythlon iawn, a ffynidwydd Douglas yw'r coed ifanc a welwch chi yma, ac maen nhw'n atgynhyrchu'u hunain yn naturiol iawn. Fel coedwigwyr, rydym yn helpu'r broses trwy dorri coed sy'n rhwystro golau rhag cyrraedd llawr y goedwig. Oherwydd ein bod yn hemisffer y gogledd, mae golau o'r ochr yn bwysicach na golau a ddaw oddi uchod, ac rydym yn nodi coed sy'n taflu cysgod ar lawr y goedwig. Byddwn yn torri grŵp bach o goed a bydd hyn yn caniatáu i olau'r haul ddisgyn ar lawr y goedwig, sy'n caniatáu i blanhigion ifanc dyfu tua'r golau; mae hyn yn cynnwys coed llydanddail hefyd. Ymhen dau gant i dri chant o flynyddoedd, bydd gennym gymysgedd hyfryd o ffynidwydd Douglas, a choed deri a choed bedw yn y fan hon."

Mae'r 'babanod' hyn tua 50 medr o daldra, ac mae ganddynt ffordd hir i fynd cyn cyrraedd taldra eu cefndryd yng Ngogledd America, ble cofnodwyd taldra hyd at gant ac ugain medr ymhlith ffynidwydd Douglas sy'n chwe chan mlwydd oed!

Mae'r llwybr Pob Gallu'n gorffen yn y fan hon. Gallwch ddilyn yr un llwybr nôl i'r maes parcio, neu barhau ar y prif lwybr, gan ddilyn y nodwyr llwybr melyn, tuag at y 'Pencampwr'. Mae rhannau byr o'r llwybr hwn yn fwy serth ond mae'n parhau yn llydan, heb risiau na chamfeydd.

Yn arhosfa pedwar cewch glywed am y dyn a oedd eisiau rhannu ei goed ag ymwelwyr.

[2 funud 15 eiliad]

Trac 4: Ewch ymaith oddi ar fy nhir

Cyn y mil naw chwedegau, gall coedwigwr profiadol fynd o gwmpas ei waith yn torri coed i lawr a defnyddio ei geffyl ffyddlon i symud y boncyffion gwerthfawr i ffwrdd. Byddai'r syniad o gael pobl gyffredin yn cerdded trwy goedwigoedd a reolwyd yn fanwl ganddynt wedi rhoi ias oer iddynt. Mae'n siŵr, pan ddisgrifiodd coedwigwr cynt, Reg Wheeler, y weledigaeth hon, roedd llawer o'i gydweithwyr yn meddwl bod yr oriau gwaith hir ac unig wedi effeithio arno.

04_aled_recreation 27 secs

"Roeddwn nhw'n gweld coedwigoedd, yn sylfaenol, fel mannau cynhyrchiol ac nid ar gyfer dibenion hamdden. Gwelodd Reg gyfle i agor y goedwig i fyny ac os edrychwch chi wrth gerdded ar hyd y llwybr hwn – edrychwch am olion traed bach ar y coed; maen nhw'n wyn, a dyma'r llwybrau gwreiddiol a osododd Reg, ac mae pobl wedi'u mwynhau am nifer o flynyddoedd."

Ond heb gyfraniad coedwigwr arall a oedd yr un mor flaengar, efallai na fyddem yn mwynhau'r coed tal, mawreddog hyn heddiw. Yn ystod y mil naw saithdegau roedd cynlluniau i dorri'r holl goed hyn i lawr , er mwyn uchafu eu gwerth economaidd...

04_aled_cathedral 47 secs

"Ond roedd y coedwigwr ardal a oedd yma bryd hynny, a'r parc cenedlaethol hefyd, *a* llawer o'r cyhoedd yn hoffi'r effaith, a oedd yn debyg i gadeirlan, a grëwyd gan y coed mawr hyn. A rhyngddynt, llwyddwyd i achub yr holl goed ac ni chawsant eu torri i lawr fel rhan o waith cynhyrchu arferol y goedwig. Ac maen nhw wedi'u hachub nawr i ni eu rheoli a byddwn yn eu rheoli o hyn ymlaen yn ôl system nad yw'n galw am dorri'r holl goed yr un pryd, ond trwy dorri canran fach o'r coed bob blwyddyn mewn ffordd gynaliadwy ac a fydd yn gynaliadwy yn fytholbarhaus."

Wedi i goed gael eu torri i lawr, beth yw'r ffordd orau o'u symud? Cewch wybod yn nes ymlaen ar y llwybr yn arhosfa pump.

[2 funud 10 eiliad]

Trac 5: Y nenlinell – nid oedd iechyd a diogelwch yr hyn yr ydyw nawr

05_aled_skyline 103 secs

"Fel gweithiwr coedwig ifanc rwy'n cofio cael gorchymyn i ddod i'r safle hwn a thorri coed, ar gyfer yr hyn a elwir yn nenlinell. Yn sylfaenol, gwifren sefydlog ydyw a godwyd i lefel o tua phymtheg medr, a thrwy ddefnyddio amrywiaeth o bwlïau a mecanweithiau, symudwyd boncyffion i ffwrdd. Mae hon yn hen system, ond mae wedi colli ffafr oherwydd ei bod yn weddol ddrud. Ond ar y safle arbennig hwn, mae'r ffordd gyhoeddus o'ch blaen, roedd y nenlinell wedi'i lleoli ar ochr isaf heol y cyngor a'r coed ar ochr uchaf heol y cyngor. Ac yn y saithdegau, nid oedd iechyd a diogelwch yr hyn yr ydyw heddiw, a byddai'r coedwigwyr, a ninnau, yn torri coed i lawr heb boeni llawer am geir yn mynd heibio a byddem yn symud y boncyffion. Mae un hanes yn sôn am foncyff a oedd dwy neu dair medr o hyd, sef tua dwy neu dair tunnell, yn cael ei llusgo ar draws y ffordd a char yn stopio o fewn modfeddi iddo. Iawn, ni chafodd neb niwed, diolch byth, ond mae wedi'n galluogi ni i deneuo'r cnwd hwn a'i adael fel cadeirlan, fel y gwelwch chi nawr. Ond oedd, roedd yn dipyn o hwyl bryd hynny." [chwerthin]

Mae'r llwybr yn troi'n ôl nawr tuag at y maes parcio ar hyd ochr y ffordd darmac. Byddwch yn ofalus o'r traffig wrth i chi gerdded at yr arhosfa nesaf.

[1 funud 50 eiliad]

Trac 6: Coedwig sy'n ddigon da i Frenin

Fel y gwelwch yn ôl yr arysgrif, mae'r garreg hon yn coffau jiwbilî arian y Brenin Siôr y Pumed; ond pam ei gosod yma ar lôn dawel yng Nghoed y Brenin?

Mae'r ateb i'w gael yn enw'r goedwig.

Yn wreiddiol, roedd y goedwig hon yn rhan o Ystâd Nannau, sy'n dyddio'n ôl i'r ddeuddegfed ganrif. Pan ddaeth y llinach wrywaidd i ben fe'i trosglwyddwyd i'r llinell fenywaidd, a oedd yn briod â theulu Vaughan, sef teulu pwerus, dylanwadol o frenhinwyr, ac adwaenwyd yr ardal hon fel "Coedwig Vaughan". Ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, prynodd y Comisiwn Coedwigaeth y goedwig naw mil hectar ac ym mil naw tri pump, rhoddwyd yr enw newydd i'r goedwig, sef Coed y Brenin, i ddathlu'r jiwbilî. Gosodwyd y garreg yn y fan hon gan fod y lôn yn arwain at eglwys y teulu Vaughan ym mhentref Llanfachreth, ac ymlaen at blasty Nannau.

Nid i'r teulu Vaughan yn unig y mae'r diolch am reoli'r goedwig hon, ond hefyd i'r coedwigwyr a'u gweledigaeth, a chwaraeodd ran mewn tyfu'r 'Gwarchodlu Brenhinol' trawiadol hwn.

06_aled_crazy__foresters 47 secs

"Wyddoch chi, rydym wedi cael rhai coedwigwyr gwallgof yma, un nad oedd eisiau torri coed i lawr ac un arall a oedd eisiau dod â hamddena i'r goedwig, ac yn ddiweddarach, yn y nawdegau cynnar, roedd Dafydd Davis a oedd eisiau dod â beicwyr mynydd yma - wel yn wir, wyddoch chi! Ond mae eu gweledigaethau wedi talu ffordd, a nawr, Coed y Brenin yw un o'r prif leoliadau, yn enwedig ar gyfer beicio mynydd. Yma mae'r ffynidwydden Douglas fwyaf ei maint, o'i hoedran, ym Mhrydain, ac rydym yn defnyddio'r goedwig fel cyfleuster addysg i ddangos i bobl sut y gellir rheoli coedwig er mwyn cynhyrchu pren a hybu hamddena a chadwraeth."

Gallwch glywed mwy am hanes cyfoethog Coed y Brenin ar bedwar llwybr arall yn y Parc Coedwig. Ariannwyd y llwybrau clywedol gan y Rock Trust, sef elusen sydd wedi'i lleoli ym Meirionnydd, ac mae pob un ohonynt ar gael i'w lawrlwytho am ddim o wefan Comisiwn Coedwigaeth Cymru.

[2 funud 20 eiliad]